**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/VG/0644/24

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

29 Chwefror 2024

Annwyl Paul

Diolch i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am ystyried y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP), ei Fil cysylltiedig a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Wrth ymateb i'ch llythyr, mae'r broses weithredu yn mynd rhagddi drwy waith bob dydd y tîm polisi masnach ac integreiddio ehangach i'n gweithgareddau ehangach ar gyfer busnesau. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwahanu costau gweithredu cytundebau masnach rydd oddi wrth weithgareddau busnes fel arfer. Pe bai'r tîm polisi masnach yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd penodol sy'n arwain at gostau sylweddol er mwyn gweithredu cytundeb masnach, byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor ac yn ei hysbysu am gostau'r gweithgaredd hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y cyfleoedd sy'n deillio o gytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit ymhlith amrywiaeth o ffactorau wrth ddylunio ei rhaglen flynyddol o Deithiau Masnach. Byddwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am unrhyw gostau sy'n codi wrth ddarparu Teithiau Masnach sydd wedi'u cynllunio i farchnadoedd lle mae cytundebau masnach ar ôl Brexit yn brif ystyriaeth. Gellir gweld y rhagolwg presennol o deithiau masnach Llywodraeth Cymru yma.

O ran y pryderon a godwyd yn adroddiad safbwynt Llywodraeth Cymru ar CPTTP, mae swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys ein blaenoriaethau ar gyfer yr ymarfer adolygu CPTPP sydd ar y gweill, a byddwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am ddatblygiadau allweddol wrth iddynt godi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.